**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000**

# CYNLLUN CYHOEDDI

**Ar gyfer**

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG**

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

**Cynllun Cyhoeddi**

Mae’r Cynllun Cyhoeddi hwn wedi cael ei fabwysiadu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan ddefnyddio’r model a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd yn ddilys nes clywir yn wahanol.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cynhyrchu’r cynllun hwn dan ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (“y Ddeddf”) a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000. Pwrpas y Ddeddf yw gwneud awdurdodau cyhoeddus yn fwy agored. Mae’n rhoi hawl gyffredinol i gael mynediad at bob math o wybodaeth gofnodedig a ddelir gan gyrff cyhoeddus.

Dan Adran 19 o’r Ddeddf mae’n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi sy’n nodi’r dosbarthiadau o wybodaeth y mae’n eu dal, y modd y mae’n bwriadu cyhoeddi’r wybodaeth honno a pha un a fydd yn codi tâl am yr wybodaeth.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymrwymedig i gynnal ei fusnes mewn modd agored, a bydd gwybodaeth a ddelir gan yr Awdurdod ar gael i’r cyhoedd yn unol â’r cynllun.

**Yr Awdurdod**

Sefydlwyd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel Awdurdod annibynnol ar 1 Ebrill 1996 dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae ganddo 24 aelod sy’n cynnwys 16 aelod etholedig o saith o’i awdurdodau unedol cyfansoddol ac 8 aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r Awdurdod yn cyflogi dros 124 o staff, 148 o Wirfoddolwyr ac mae’n cynnwys tair prif adran – Rheoli Cefn Gwlad a Rheoli Tir, Cynllunio a Gwasanaethau Corfforaethol.

**Cylch gwaith statudol yr Awdurdod:**

**Ein Dibenion**

- cadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
- hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol

**Ein Dyletswydd**

- meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy’n byw yn y Parc Cenedlaethol

Yr Awdurdod hefyd yw’r awdurdod cynllunio lleol statudol ar gyfer yr ardal ac mae’n gyfrifol am baratoi’r Cynllun Datblygu Lleol a phenderfynu ar geisiadau cynllunio.

**<u>Dosbarthiadau o Wybodaeth</u>**

Mae’r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod nodi’r dosbarthiadau o wybodaeth y mae’n eu cyhoeddi neu’n bwriadu eu cyhoeddi’n rheolaidd.

Ceir mwy o fanylion isod am yr wybodaeth sydd ar gael ym mhob un o’r categorïau. Er bod y tabl hwn yn darparu rhestr o’r dosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddir gan yr Awdurdod, nid yw’n rhestr gynhwysfawr o’r holl ddogfennau unigol a’r wybodaeth arall sydd ar gael i’r cyhoedd.

| | **Dosbarthiadau o Wybodaeth** | **Ar Gael** |
|---|---|---|
| 1. | **Pwy ydym a beth ydym yn ei wneud**<br>(Gwybodaeth sefydliadol, strwythurau, lleoliadau a chysylltiadau) | |
| | • Rolau a chyfrifoldebau | *Pencadlys yr Awdurdod* |
| | • Cyfansoddiad yr Awdurdod ac unrhyw is-bwyllgorau | Y wefan |
| | • *Amodau Gorchwyl* | Y wefan |
| | • *Aelodau* | Y wefan |
| | • Strwythur Staff y Sefydliad | *Pencadlys yr Awdurdod* |
| | • Map o’r Ardal | Y wefan |
| | • Cyfleoedd i Wirfoddolwyr | Y wefan |
| | • Manylion swyddfeydd a manylion cyswllt | Y wefan |
| 2. | **Beth ydym yn ei wario a sut ydym yn ei wario**<br>(Gwybodaeth ariannol am incwm a gwariant rhagamcanol a gwirioneddol, caffael, contractau ac archwilio ariannol) | |
| | • Datganiad alldro blynyddol (Datganiad o Gyfrifon) | Y wefan |
| | • Cyfrifon archwiliedig | Y wefan |
| | • Strwythurau cyflog a graddio | Pencadlys yr Awdurdod |
| | • Lwfansau a threuliau aelodau’r Awdurdod | Y wefan |
| | • Incwm o grantiau a ffynonellau eraill | Y wefan |
| | • Gweithdrefnau caffael | Y wefan |
| | • Rhestr o gontractau a ddyfarnwyd a’u gwerth | Pencadlys yr Awdurdod |
| | • Rheoliadau ariannol | Y wefan |
| 3. | **Beth yw ein blaenoriaethau a sut ydym yn gwneud**<br>(Strategaethau a chynlluniau, dangosyddion perfformiad, archwiliadau, arolygiadau ac adolygiadau) | |
| | • Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol | Y wefan |
| | • Adroddiad Cyflwr y Parc | Y wefan |
| | • Y Cynllun Datblygu Lleol | Y wefan |
| | • Cynlluniau rheoli safle | Y wefan |
| | • Adroddiadau ar berfformiad – (Cynllun Gwella Busnes) | Y wefan |
| | • Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Y wefan |
| | • Adroddiadau Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru | Y wefan |
| | • Y Cynllun Iaith Gymraeg | Y wefan |
| | • Adroddiadau Archwilio Mewnol | Y wefan |
| 4. | **Sut ydym yn gwneud penderfyniadau**<br>(Prosesau penderfynu a chofnodion o benderfyniadau) | |
| | • Agendâu a chofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod | Y wefan |
| | • Astudiaethau Cynllunio | Y wefan |
| | • Adroddiadau sydd ar gael yn gyhoeddus | Y wefan |
| | • Amserlen cyfarfodydd pwyllgorau | Y wefan |
| | • Adroddiadau Craffu | Y wefan |

| | | |
|---|---|---|
| 5. | **Ein polisïau a'n gweithdrefnau**<br>(Protocolau, polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflenwi ein gwasanaethau a chyflawni ein cyfrifoldebau)<br>• Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes yr awdurdod<br>• Protocolau sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau<br>• Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau<br>o *Y Cynllun Iaith Gymraeg*<br>o *Y Cynllun Cydraddoldeb*<br>• Polisïau a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio a chyflogi staff<br>• Strategaethau cadwraeth<br>• Polisi cynllunio<br>o *Y Cynllun Datblygu Lleol*<br>o *Polisi gorfodi*<br>o *Cod ymddygiad i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio*<br>o *Siarad cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio*<br>• Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol a Thlodi Plant<br>• Cyfarwyddiadau, llawlyfrau a chanllawiau mewnol<br>• Rheoli cofnodion<br>• Polisïau diogelu data<br>• Cyfundrefnau a pholisïau codi tâl (mae'r rhain yn cael eu drafftio ar hyn o bryd) | Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan |
| 6. | **Rhestrau a chofrestrau**<br>• Cofrestrau cyhoeddus a chofrestrau a ddelir fel cofnodion cyhoeddus<br>o *Ffeiliau'r holl geisiadau cynllunio ers 2009*<br>o *Rhestr wythnosol o geisiadau cynllunio*<br>o *Rhestr o ardaloedd cadwraeth*<br>o *Cofrestr penderfyniadau cynllunio*<br>o *Cofrestr gorfodi*<br>• Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau<br>• Cofrestrau asedau<br>• Logiau datgeliadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth<br>• Cofrestr o roddion a lletygarwch a ddarparwyd ar gyfer aelodau o'r awdurdod ac uwch bersonél<br>• Rhestrau eraill sy'n ofynnol yn gyfreithiol | Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod* |
| 7. | **Y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig**<br>(Gwybodaeth am y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig gan gynnwys taflenni, canllawiau a chylchlythyrau)<br>• Is-ddeddfau<br>• Manylion cymdeithasol, daearyddol a hanesyddol<br>• Gwasanaethau addysg<br>• Mynediad a hygyrchedd<br>• Safleoedd gwersylla, meysydd parcio a thoiledau cyhoeddus<br>• Rhestr o'r holl orchmynion cadw coed<br>• Treftadaeth ddiwylliannol<br>o *Rhestr o'r adeiladau rhestredig*<br>o *Rhestr o'r henebion cofrestredig*<br>o *Rhestr o'r ardaloedd cadwraeth*<br>o *Disgrifiadau rhestr yr adeiladau rhestredig*<br>o *Map o derfynau ardaloedd cadwraeth*<br>o *Cofrestr o'r adeiladau rhestredig sydd mewn* | *Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Y Wefan a'r Pencadlys*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Gweler Mapiau'r Arolwg Ordnans*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>Y wefan<br>*Pencadlys yr Awdurdod*<br>Y wefan |

| | | |
|---|---|---|
| | *perygl*<br>o *Arfarniadau Ardal Cadwraeth*<br>• Teithiau i ymwelwyr<br>• Cyngor a chanllawiau<br>o *Canllawiau cynllunio a datblygu*<br>o *Canllawiau ar gyfer ceisiadau cynllunio*<br>o *Canllawiau datblygu cynaliadwy*<br>• Taflenni, cylchlythyrau a llyfrynnau<br>• Datganiadau i'r cyfryngau<br>• Llogi Ystafelloedd Cyfarfod | <br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan<br>Y wefan |

**Deunydd sydd heb ei gynnwys**

Mae'r Awdurdod yn dymuno bod mor agored a thryloyw â phosibl o fewn y gyfraith a bydd yn gweithredu rhagdybiaeth o blaid trefnu bod ei wybodaeth ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol pam na ddylai wneud hynny. Bydd yr esemptiadau hyn ar y cyfan yn cynnwys:

- Gwybodaeth y mae ei datgelu wedi'i atal gan y gyfraith, neu wedi'i esemptio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu yr ystyrir yn briodol fel arall ei bod wedi'i diogelu rhag cael ei datgelu.
- Gwybodaeth sydd ar ffurf ddrafft
- Gwybodaeth nad yw ar gael yn rhwydd mwyach gan ei bod wedi'i chynnwys mewn ffeiliau sydd wedi cael eu storio mewn archif, neu y mae'n anodd cael mynediad ati am resymau tebyg.

**Y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio i drefnu bod gwybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael**

Ein nod ni yw trefnu bod cymaint o wybodaeth â phosib ar gael ar ein gwefan:

www.beacons-npa.gov.uk

Lle mae'n anymarferol trefnu bod gwybodaeth ar gael ar ein gwefan, neu lle nad yw unigolyn yn dymuno cael mynediad at yr wybodaeth ar y wefan, bydd copïau caled o'r wybodaeth ar gael o swyddfa'r Awdurdod:

**Plas y Ffynnon**
**Ffordd Cambria**
**Aberhonddu**
**Powys**
**LD3 7HP**

Dan amgylchiadau eithriadol efallai y bydd peth gwybodaeth ar gael i'w gweld yn bersonol yn unig. Lle mae hyn yn angenrheidiol, bydd apwyntiad i weld yr wybodaeth yn cael ei drefnu o fewn amserlen resymol.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu yn yr iaith y caiff ei dal neu ym mha bynnag iaith arall sy'n ofynnol yn gyfreithiol. Bydd yr Awdurdod yn dilyn y canllawiau yn ei Gynllun Iaith Gymraeg o ran darparu deunydd yn Gymraeg. Byddir yn ymlynu wrth rwymedigaethau dan ddeddfwriaeth anabledd a gwahaniaethu a deddfwriaeth arall i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau ac mewn fformatau penodol wrth ddarparu gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

**Taliadau y gellir eu codi am Wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn**

Pwrpas y cynllun hwn yw trefnu bod cymaint â phosibl o wybodaeth ar gael yn rhwydd gyda'r anghyfleustra lleiaf posib ac am y gost isaf bosib i'r cyhoedd. Bydd taliadau a godir gan yr Awdurdod am ddeunydd a gyhoeddir yn rheolaidd yn cael eu cyfiawnhau, yn dryloyw ac yn cael eu cadw mor isel â phosibl.

Bydd deunydd a gyhoeddir ac a gyrchir trwy ein gwefan yn cael ei ddarparu'n rhad ac am ddim oni bai ei fod yn cael ei gynnig fel cyhoeddiad masnachol.

Bydd taliadau'n cael eu codi am alldaliadau gwirioneddol a ysgwyddwyd megis:

- Costau llungopïo
- Postio a phecynnu
- Y costau a ysgwyddir yn uniongyrchol o ganlyniad i weld gwybodaeth

Gellir codi tâl hefyd am wybodaeth a ddarperir dan y cynllun hwn lle'r ydym wedi ein hawdurdodi'n gyfreithiol, a lle'r ydym yn gweithredu'n unol â rhestr neu restrau prisiau a gyhoeddwyd ac sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd. (Dolen i'n polisi codi tâl)

Os oes tâl yn mynd i gael ei godi, bydd cadarnhad o'r taliad sy'n ddyledus yn cael ei roi cyn y darperir yr wybodaeth. Byddwn yn gofyn am y taliad cyn darparu'r wybodaeth.

**Hawlfraint**

Cedwir holl hawlfreintiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ond gall deunydd a briodolir yn briodol gael ei atgynhyrchu at ddibenion astudiaeth neu ymchwil breifat gyda chaniatâd. Efallai y bydd hawlfreintiau eraill yn berthnasol hefyd i wybodaeth a ddarperir ar wefan yr Awdurdod a thrwy gyfryngau eraill. Bydd manylion hawlfreintiau o'r fath yn cael eu darparu fesul achos unigol.

**Cwynion**

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd yr ydym wedi ymdrin â'ch cais, ar y ffi a godwyd neu ar y rhesymau yr ydym wedi'u rhoi dros wrthod darparu gwybodaeth, mae gennych yr hawl i apelio.

Dylech gyflwyno eich cwyn i ni yn uniongyrchol gan ddefnyddio gweithdrefnau cwynion yr Awdurdod. Dylech anfon eich cwyn gychwynnol at:

Y Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambria
Aberhonddu
Powys LD3 7HP

**Cyfrifoldeb am y Cynllun**

Mae'r Awdurdod wedi penodi'r Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol fel y swyddog sy'n gyfrifol am y Cynllun a hefyd i fod yn gyfrifol am ei gynnal o ddydd i ddydd.

Byddwn yn adolygu'r Cynllun yn rheolaidd a byddem yn croesawu eich safbwyntiau a'ch awgrymiadau o ran sut y gellir ei wella.

Mae copïau o'r cynllun hwn ar gael ar-lein yn www.beacons-npa.gov.uk neu ar ffurf copi caled o swyddfeydd yr Awdurdod. Y manylion cyswllt yw:

Y Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Ffordd Cambria
Aberhonddu
Powys LD3 7HP